
**Cod Ymddygiad:
Bwrdd Ofcom**

Mawrth 2019

Cynnwys

Adran

Trosolwg	1
1. Cyflwyniad	2
2. Rôl Ofcom, ei Gadeirydd a'i Aelodau	3
3. Buddiannau	5
4. Cyfathrebu allanol	9
5. Materion eraill	12

Atodiad

A1. Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus	15
------------------------------------	----

Trosolwg

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel.

Ni ddylai pobl o'r tu allan i Ofcom fyth gael unrhyw resymau dilys dros amau a yw barn a buddiannau gwleidyddol neu fuddiannau preifat Aelodau yn dylanwadu ar benderfyniadau Ofcom, neu a fyddai Aelodau'n gallu elwa ar yr wybodaeth sydd ar gael iddynt drwy eu gwaith.

Yn unol â hynny, dylai Aelodau Bwrdd Ofcom gydymffurfio bob amser â'r Cod Ymddygiad hwn (ac unrhyw addasiadau cytunedig y bydd Bwrdd Ofcom yn eu gwneud iddo), a gweithredu'n ddidwyll ac er budd gorau Ofcom.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel. Ni ddylai pobl o'r tu allan i Ofcom fyth gael unrhyw resymau dilys dros amau a yw barn neu fuddiannau gwleidyddol neu fuddiannau preifat Aelodau yn dylanwadu ar benderfyniadau Ofcom, neu a fyddai Aelodau'n gallu elwa ar yr wybodaeth sydd ar gael iddynt drwy eu gwaith.
- 1.2 Felly, gan weithio yn unol â'r safonau angenrheidiol ar gyfer didueddrwydd, gonestrwydd ac uniondeb, mae'n bwysig bod Ofcom yn gallu denu Aelodau sydd â gwybodaeth a phrofiad ar lefel uwch, boed hynny yn y proffesiynau, yn y diwydiant (gan gynnwys y sector y mae'n ei reoleiddio), mewn bywyd cyhoeddus neu wleidyddol, ac nad oes unrhyw argraff o ragfarnau na buddiannau personol ym mhenderfyniadau Ofcom. Mae Ofcom yn ceisio rheoli, mewn ffordd synhwyrol a phriodol, gwrthdaro posib rhwng buddiannau sydd gan Aelodau, neu a all godi o bryd i'w gilydd. Mae hefyd yn ceisio sicrhau nad yw gweithredoedd Aelodau yn bwrw amheuaeth dros ddiueddrwydd a gwrthrychedd Ofcom. Mae disgwyl i Aelodau osgoi ymddygiad a allai ddwyn anfri ar Ofcom neu a allai greu canfyddiad o ragfarn/diffyg bod yn ddiuedd. Rhaid i Aelodau sicrhau bod eu hymddygiad yn gydnaws â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sydd wedi'u cynnwys fel atodiad i'r Cod hwn).
- 1.3 Mae Ofcom yn atebol i'r Senedd ac, yn fwy cyffredinol, i ddinasyddion a defnyddwyr. Er mwyn helpu â'i egwyddorion o ran gonestrwydd ac atebolrwydd, bydd y Bwrdd yn ceisio arwain yn unol â'r arferion gorau.
- 1.4 Fodd bynnag, mae'n bwysig bod Aelodau'n sicrhau nad oes unrhyw argraff o wrthdaro rhwng buddiannau – na gwrthdaro go iawn rhwng buddiannau– yn codi mewn perthynas â'u hymrwymadau eraill. Felly, efallai y bydd yn rhaid i Ofcom fynd ati'n synhwyrol ac yn briodol i reoli gwrthdaro posib rhwng buddiannau sydd gan Aelodau'r Bwrdd, neu a all godi o bryd i'w gilydd.

2. Rôl Ofcom, ei Gadeirydd a'i Aelodau

Atebolrwydd i'r Senedd

- 2.1 Mae Ofcom yn gyfrifol am ddarparu'r cyfryw wybodaeth i'r Senedd (gan gynnwys ei Phwyllgorau Dethol) os bydd yn gofyn amdani yng nghyswllt ei weithredoedd a'i benderfyniadau polisi. Mae gan Ofcom ddyletswydd benodol i gyflwyno ei adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd wedyn yn ei gyflwyno i'r Senedd. Efallai y bydd hi'n ofynnol i Ofcom roi tystiolaeth i Bwyllgorau Dethol y Senedd ac i'r Pwyllgor Cyfrifon Seneddol. Caiff cyfrifon eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Rhaid anfon copi o'r datganiad cyfrifon i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Rôl Aelodau Bwrdd Ofcom

- 2.2 Mae cyfrifoldebau Aelodau'n cynnwys y materion a ganlyn:
- cyflawni dyletswyddau Ofcom o dan Ddeddf Ofcom 2002, Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Gwasanaethau Post (2011), Deddf yr Economi Ddigidol (2010), Deddf yr Economi Ddigidol (2017) ac unrhyw ddeddfwriaeth atodol berthnasol arall neu Orchmynion ynddi;
 - sefydlu'r polisi a'r cyfeiriad strategol gan gynnwys y fframwaith adnoddau ar gyfer gweithredu Ofcom;
 - sicrhau bod y safonau uchaf o safbwynt llywodraethu corfforaethol yn cael eu dilyn bob amser;
 - sicrhau bod Ofcom yn gweithredu o fewn cyfyngiadau ei awdurdod statudol a bod ei staff yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r awdurdod dirprwyedig.

Rôl Cadeirydd Bwrdd Ofcom

- 2.3 Mae gan y Cadeirydd, dan arweiniad y Prif Weithredwr, gyfrifoldeb penodol dros arwain y Bwrdd ar y materion a ganlyn:
- llunio strategaeth Ofcom ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol;
 - cynrychioli barn Ofcom yn allanol;
 - annog safonau priodoldeb uchel;
 - darparu asesiad o berfformiad Aelodau unigol os ystyrir eu hailbenodi i Ofcom;
 - sicrhau bod Ofcom yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a bod cofnodion cyfarfodydd yn cofnodi penderfyniadau yn gywir.

Dirprwyo

- 2.4 Mae Aelodau Ofcom yn gwasanaethu'n rhan amser. Bydd modd i'r Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb dros faterion penodol i Aelodau unigol o'r Bwrdd, neu i bwyllgorau neu is-bwyllgorau Bwrdd Ofcom, neu i staff, o fewn amserlen rheoli strategol y mae modd ei deall yn glir.

Cyfrinachedd

- 2.5 Bydd disgwyl i Aelodau o'r Bwrdd ddangos cyfrinachedd llwyr mewn perthynas â gwybodaeth neu ddeunyddiau a fydd yn cael eu rhoi iddynt ar gyfer eu dyletswyddau ar y Bwrdd ac mewn cysylltiad â hynny.
- 2.6 Mae Adran 393 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn gosod cyfyngiadau ar unigolion o ran datgelu unrhyw wybodaeth heb gael caniatâd y sawl sydd wedi darparu'r wybodaeth.
- 2.7 Os bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu yn groes i'r ddarpariaeth honno, mae hynny'n drosedd a allai arwain at hyd at ddwy flynedd o garchar a/neu ddirwy.
- 2.8 Bydd y cyfyngiadau hyn yn dal yn berthnasol ar ôl i Aelodau roi'r gorau i fod yn Aelodau Ofcom, mewn perthynas â'r wybodaeth a gafodd yr Aelodau pan oeddent yn y swydd. Pwrpas hyn yw osgoi'r risg bod cwmni penodol yn cael mantais amhriodol dros ei gystadleuwyr drwy gyflogi rhywun a oedd – wrth gyflawni ei ddyletswyddau i Ofcom – wedi gallu cael gafael ar wybodaeth dechnegol neu wybodaeth arall y byddai'n deg i'r cystadleuwyr hynny ei hystyried yn gyfrinach fasnachu, neu wybodaeth ynghylch datblygiadau arfaethedig ym mholisi'r Llywodraeth a allai effeithio ar y cwmni hwnnw neu ei gystadleuwyr.

Pryderon am gamymarfer

- 2.9 Os yw aelod am godi pryder am gamymarfer, dylai godi ei bryderon â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd i ddechrau, fel sy'n briodol.

Polisi diogelwch

- 2.10 Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd ddarllen a chydymffurfio â Pholisi Diogelwch Ofcom. Mae'r polisi hwn yn rhoi sylw i nifer o elfennau, gan gynnwys defnydd derbyniol o systemau gwybodaeth, diogelu gwybodaeth, dal gafael a chael gwared ar wybodaeth, delio â thrydydd partïon a diogelwch eiddo.

3. Buddiannau

- 3.1 Rhaid sicrhau nad yw buddiannau'r Aelodau nac aelodau agos o'r teulu, h.y. partneriaid a phlant dibynnol, yn rhoi'r argraff y gallai eu hamgylchiadau personol fod yn dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau Ofcom.
- 3.2 Ym mhob achos, mae Ofcom yn cadw'r hawl i benderfynu beth mae gwrthdaro posib neu wirioneddol rhwng buddiannau yn ei olygu, ac i benderfynu a oes modd rheoli gwrthdaro'n synhwyrol drwy ddatganiadau a phrosesau esgusodi (recusals).

Buddiannau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio

Cyfyngiadau ar fuddsoddiadau ariannol uniongyrchol

- 3.3 Rhaid i'r holl Aelodau ddatgelu i Ysgrifennydd y Gorfforaeth fanylion unrhyw fuddiannau ariannol uniongyrchol sydd ganddynt, neu sydd gan eu partneriaid neu blant dibynnol mewn cwmni yn y sector cyfathrebiadau a'r sector post ac mewn unrhyw gwmni y mae Ofcom yn ei reoleiddio. Dylai'r Aelodau wneud hyn wrth ymuno ag Ofcom, a bob tro pan fyddant yn gwneud unrhyw newidiadau i'w portffolio buddiannau.
- 3.4 At y dibenion hyn, mae **buddiant ariannol uniongyrchol** yn fuddiant ariannol:
- **sy'n eiddo uniongyrchol i Aelod**, ei bartner neu blant dibynnol (e.e. cyfranddaliadau);
 - **sydd o dan reolaeth Aelod**, ei bartner neu blant dibynnol (gan gynnwys, er enghraifft, buddiannau ariannol a reolir yn ôl disgrisiwn gan Aelod neu ei bartner ar gyfer pobl eraill); neu
 - **sy'n eiddo llesiantol i Aelod**, ei bartner neu blant dibynnol drwy gyfrwng buddsoddi, ymddiriedolaeth, neu gyfryngwr arall, pan fydd yr Aelod neu ei bartner naill ai'n rheoli'r cyfryngwr neu'n meddu ar yr awdurdod i oruchwylio neu gymryd rhan ym mhenderfyniadau buddsoddi'r cyfryngwr.
- 3.5 Mae'r adran a ganlyn yn nodi tri chategori cwmni a dylai'r rhain ddylanwadu ar y ffordd y bydd Aelod yn rheoli ei bortffolio buddsoddi.
- 3.6 Ni chaniateir i'r Aelodau, eu partneriaid na phlant dibynnol fod â buddiannau uniongyrchol mewn cwmnïau sy'n wedi'u cynnwys yng **Nghategori (1)** oni bai fod Ysgrifennydd y Gorfforaeth wedi rhoi caniatâd i hynny (a fydd ond yn cael ei roi mewn amgylchiadau eithriadol).
- 3.7 Bydd modd i'r holl Aelodau, eu partneriaid a phlant dibynnol, gyda chaniatâd Ofcom, fod â buddiannau ariannol uniongyrchol mewn cwmnïau yng **Nghategori (2)** neu **Gategori (3)** os nad yw'r gweithgareddau cyfathrebiadau neu'r gweithgareddau post yn rhan sylweddol o weithgareddau'r grŵp. At y dibenion hyn, mae 'sylweddol' yn cyfeirio at un o'r canlynol neu'r ddau ohonynt: graddau'r dylanwad ar werth marchnad y cyfranddaliadau (sydd i'w ddisgwyl gan amrywiadau mewn sefyllfaoedd ariannol/masnachu a rhagolygon o'r gweithgareddau cyfathrebiadau a phost), neu faint busnes y cwmni yn y Deyrnas Unedig (e.e. is-gwmni sylweddol yn y Deyrnas Unedig i gwmni sydd wedi'i restru yn UDA).

- 3.8 Os bydd Aelod yn ansicr ynghylch sut mae dehongli'r canllawiau hyn (yn benodol, pa fuddsoddiadau sydd wedi'u cynnwys ym mha categorïau) neu os bydd angen iddo gael gwared ag unrhyw gyfranddaliadau sydd ganddo yn y sector cyfathrebiadau neu'r sector post neu mewn unrhyw gwmni y mae Ofcom yn ei reoleiddio er mwyn cydymffurfio â'r amodau hyn, dylai ofyn am arweiniad gan Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

Categorïau buddsoddiadau ariannol

- 3.9 Mae llawer o gwmnïau unigol yn y sector cyfathrebiadau a'r sector post yn y DU ac mewn cwmnïau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Mae llawer ohonynt yn is-gwmnïau i gwmnïau eraill, gyda buddiannau gwahanol yn aml. Mewn rhai achosion, bydd cymryd rhan yn y sectorau hyn yn weithgarwch mawr; mewn achosion eraill, ni fydd mor arwyddocaol. Yn gyffredinol, maent yn disgyn i dri chategori bras:
- **Categori 1.** Cwmnïau y mae rhan sylweddol o'u gweithgareddau yn cael ei rheoleiddio gan Ofcom (ac eithrio'r cwmnïau hynny y mae gofyn iddynt gael trwydded Telegraffiaeth Ddi-wifr yn unig) yn y sector cyfathrebiadau neu'r sector post ('cwmnïau a reoleiddir gan Ofcom'). Dyma enghreifftiau o gwmnïau a reoleiddir gan Ofcom: ITV plc, BSkyB plc, STV Group plc, UTV Media Group plc, Royal Mail plc, BT plc, Vodafone Group plc, TalkTalk Telecom Group plc.
 - **Categori 2.** Cwmnïau sy'n darparu gwasanaeth a reoleiddir gan Ofcom ond bod y gwasanaeth hwn yn ddim ond rhan fach o weithgareddau'r cwmni neu'r grŵp cyffredinol yn y Deyrnas Unedig (er enghraifft, grŵp archfarchnad mawr (Tesco plc) neu glwb pêl-droed (Manchester United plc) sydd hefyd yn cynnig gwasanaethau telegyfathrebiadau fel rhan ategol o'r busnes.
 - **Categori 3.** Cwmnïau eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Ofcom ond sy'n rhan o'r sector cyfathrebiadau neu'r sector post, e.e. cynhyrchydd annibynnol a fasnachir gan y cyhoedd.
- 3.10 Gellir cael canllawiau ar ba gwmnïau sy'n rhan o bob categori gan Ysgrifennydd y Gorfforaeth neu'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae Ofcom yn cadw rhestr o sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng **Nghategori 1**, gan ddefnyddio'r wybodaeth am y farchnad a gasglwn am weithredwyr telegyfathrebiadau sy'n gweithio o dan Amodau Cyffredinol, ac am drwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr/Darlledu.

Mathau eraill o gysylltiad â'r sectorau a reoleiddiwn

- 3.11 Mae'n debygol y bydd achos o wrthdaro pan fydd Aelod:
- yn ymuno â'r Bwrdd cwmnïau yn y sectorau cyfathrebiadau neu'r sector post;
 - yn ymuno â'r byrddau cynghori cwmnïau yn y sectorau cyfathrebiadau neu'r sector post;
 - yn ymgymryd â chyflogaeth gyda chwmni yn y sector cyfathrebiadau neu'r sector post;
 - yn ymgymryd â gwaith ymgynghorol i gwmni yn y sector cyfathrebiadau neu'r sector post;

- yn ymuno ag unrhyw gorff, sefydliad, elusen neu grŵp arall sydd â chysylltiad amlwg â'r sector cyfathrebiadau neu'r sector post.
- 3.12 Os yw Aelod yn bwriadu ymgymryd ag unrhyw un neu ragor o'r rolau hyn, dylai eu dangos i Ysgrifennydd y Gorfforaeth i ddechrau, a bydd yntau'n trafod â'r Aelod a'r Cadeirydd a yw ymgysylltiad o'r fath yn dderbyniol.
- 3.13 Bydd gofyn i bob Aelod wneud datganiad os yw ei bartner yn cael ei gyflogi gan gwmni yng **Nghategori (1)** neu os bydd yn dechrau cael ei gyflogi gan gwmni felly. Mewn achos fel hyn, bydd Ofcom yn cael trafodaeth â'r Aelod dan sylw ynghylch unrhyw wrthdaro ymddangosiadol rhwng buddiannau yn sgil cyfryw gyflogaeth ei bartner, a'r camau gweithredu y dylid eu cymryd – a all gynnwys rhoi gwybod i'r Aelod na fydd modd iddo barhau yn ei rôl yn Ofcom mwyach.
- 3.14 Yr egwyddor gyffredinol yw na chaniateir ymgysylltiad na chysylltiad â chwmni a reoleiddir gan Ofcom. Bydd yr ymgysylltiad neu'r cysylltiad â chwmnïau eraill yn y sector cyfathrebiadau neu'r sector post yn dibynnu ar y graddau y mae'r cwmni perthnasol yn ymwneud â nifer sylweddol a/neu ystod o benderfyniadau gan Fwrdd Ofcom, neu'r graddau y bydd y rheini'n effeithio arno, ynghyd ag amlygrwydd y cwmni (e.e. os yw'n gyflenwr, a oes ganddo gysylltiad agos ag chwmni unigol a reoleiddir gan Ofcom). Bydd y ffactorau hyn, gyda'i gilydd, yn dangos a yw'r cysylltiad rhwng yr Aelod a'r cwmni yn dderbyniol ynteu'n annerbyniol.

Osgoi achosion posib eraill o wrthdaro mewn trafodaethau a phenderfyniadau

- 3.15 Efallai y bydd achosion eraill o wrthdaro y bydd rhaid delio â nhw cyn i un o eitemau'r Bwrdd gael ei thrafod. Dylai Aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau neu gysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol sydd ganddynt (gan gynnwys buddsoddiadau yng Nghategoriâu 2 a 3). Dylent ddatgan nid dim ond buddiannau ariannol, ond hefyd y rheini sy'n cynnwys unrhyw fudd materol i'r naill barti a'r llall. Gall cyfeillgarwch personol, ar wahân i gydnabod, fod yn gysylltiad hefyd, yn yr un modd â chyflogaeth aelodau agos o'r teulu. Os oes amheuaeth, bydd Aelodau'r Bwrdd yn cael eu cynghori i ddatgan y cysylltiad er mwyn rhoi cyfle i Aelodau eraill y Bwrdd benderfynu a yw'n fuddiant posib ynteu'n fuddiant gwirioneddol. Gellir rhoi hysbysiad cyffredinol o fuddiant, a fyddai'n berthnasol i holl gyfarfodydd y Bwrdd.
- 3.16 Mae Paragraff 17 o Atodlen 1 o Ddeddf Ofcom 2002 yn nodi bod yn rhaid i rywun sydd â buddiant beidio â chymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad perthnasol oni bai fod Aelodau eraill y Bwrdd sy'n bresennol yn penderfynu y dylid diystyru'r buddiant. Rhaid i benderfyniadau am gymryd rhan gyd-fynd â'r gwaharddiad mwyaf llym a gynigiwyd (er enghraifft, os oes dau Aelod o'r Bwrdd yn fodlon i'r Aelod o'r Bwrdd sy'n datgan gymryd rhan mewn trafodaeth, ond nid mewn penderfyniad, a bod y ddau arall am i'r Aelod o'r Bwrdd sy'n datgan adael y cyfarfod yn gyfan gwbl, bydd rhaid i'r Aelod o'r Bwrdd sy'n datgan adael).

Cofrestr Buddiannau

- 3.17 Mae Ofcom yn cadw cofrestr o fuddiannau'r Aelodau a chaiff ei diweddarau'n flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod gan Ofcom gofnod cyfredol o fuddiannau'r aelodau. Bydd yr wybodaeth berthnasol yn cael ei chyhoeddi ar wefan Ofcom.
- 3.18 Wrth ymuno ag Ofcom, rhaid i bob Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau gwleidyddol sydd ganddo, neu fuddiannau sydd gan ei briod/partner neu blant dibynnol, mewn perthynas â'r canlynol:
- a) penodiadau i Fwrdd neu swydd;
 - b) cyflogaeth a/neu waith ymgynghori;
 - c) yn ymddangos yn rheolaidd ar y teledu a'r radio, neu'n ysgrifennu colofnau papur newydd;
 - d) buddiannau ariannol perthnasol;
 - e) unrhyw benodiadau elusennol a/neu gyhoeddus.
- 3.19 Bydd disgwyl i'r Aelodau lofnodi datganiad blynyddol sy'n nodi nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro â'u dyletswyddau. Rhwng datganiadau blynyddol, bydd disgwyl i'r Aelodau hefyd roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth os bydd eu buddiannau'n newid, fel y gellir diwygio'r Gofrestr yn unol â hynny.

4. Cyfathrebu allanol

Yr egwyddor gyffredinol

- 4.1 Gall ymddygiad Aelodau wrth gyflawni dyletswyddau mewn rhinwedd bersonol, neu ar gyfer sefydliadau eraill, effeithio ar enw da Ofcom am wneud penderfyniadau annibynnol a diduedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- 4.2 Pwrpas y pwyntiau isod yw sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau allanol Aelodau a'r cyngor maent yn ei roi i Ofcom.

Perthynas â'r Llywodraeth

- 4.3 Mae Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ('yr Ysgrifennydd Gwladol') yn gyfrifol am benodi'r Aelodau Anweithredol i'r Bwrdd (sy'n cael eu galw'n 'Aelodau') ac am roi cymeradwyaeth pan fydd Prif Weithredwr yn cael ei benodi. Hefyd, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu diswyddo Aelodau o dan unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir ym Mharagraff 2(4) o Ddeddf Ofcom 2002 (methdaliad, gwrthdaro rhwng buddiannau, camymddwyn, neu anallu). Gall yr Aelodau benodi aelodau ychwanegol o staff (sy'n cael eu galw'n 'Aelodau o Staff') i'r Bwrdd. Efallai y bydd hyd at gyfanswm o ddeg o Aelodau ac Aelodau o Staff ('Aelodau'r Bwrdd' gyda'i gilydd), gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn Aelodau.
- 4.4 Mae'r Gweinidogion perthnasol yn y gweinyddiaethau datganoledig yn gyfrifol am benodi Aelodau Bwrdd Anweithredol gwledydd ('Aelodau'r Gwledydd'), yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth perthnasol.
- 4.5 Bydd y cyfathrebiadau rhwng Ofcom a'r Ysgrifennydd Gwladol, neu swyddogion cyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig, yn cael eu gwneud drwy'r Cadeirydd fel arfer, ac eithrio pan fydd Ofcom wedi cytuno y dylai Aelod o'r Bwrdd weithredu ar ei ran. Er hynny, mae gan Aelod unigol yr hawl i asesu'r Gweinidogion ar unrhyw fater y mae ef neu hi yn credu sy'n codi materion pwysig o ran ei ddyletswyddau ef neu hi fel Aelod o Ofcom. Mewn achosion o'r fath, byddai gofyn i weddill Aelodau'r Bwrdd gytuno fel arfer.
- 4.6 Y Prif Weithredwr, neu aelodau eraill o'r staff sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar ran Ofcom, fydd y prif bwynt cyswllt fel arfer rhwng Ofcom a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon neu'r adrannau perthnasol mewn gweinyddiaethau datganoledig ar faterion o ddydd i ddydd.

Siarad yn gyhoeddus neu ymddangos ar y teledu, radio, ar-lein ac mewn print

Ar ran Ofcom

- 4.7 Fel egwyddor gyffredinol, y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr fydd yn siarad yn gyhoeddus ar ran Ofcom fel arfer.

- 4.8 O bryd i'w gilydd, bydd gofyn i Aelodau eraill siarad ar ran Ofcom mewn digwyddiadau i randdeiliaid neu ddigwyddiadau yn y diwydiant, a dylent fod yn ofalus iawn wrth dderbyn unrhyw wahoddiad i siarad yn gyhoeddus, gan gynnwys siarad â newyddiadurwyr, yn rhinwedd Aelod Ofcom.
- 4.9 Mewn unrhyw sefyllfa o'r fath, dylai Aelodau, i ddechrau, ymgynghori ag ysgrifennydd y Gorfforaeth a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, fel y bo'n briodol. Ym mhob achos, ni ddylai Aelodau ddatgan unrhyw safbwyntiau nad ydynt yn cyd-fynd â pholisïau Ofcom neu a allai roi argraff o benderfyniadau, pleidgarwch neu ogwydd gwleidyddol.
- 4.10 Dylai Aelodau hefyd osgoi datgan eu barn bersonol yn gyhoeddus ar faterion pan nad yw polisi Ofcom ar hynny wedi cael ei bennu (gan gofio ei bod yn bosib iawn bod Aelodau wedi bod yn cynnig cyngor – ac wedi cael gweld gwybodaeth – fel rhan o'r broses o ddatblygu'r polisi), a honno'n farn sy'n seiliedig ar rôl yr Aelod yn Ofcom. Ni ddylai Aelodau ddatgan barn bersonol pan allai hynny niweidio enw da Ofcom.

Mewn rhinwedd bersonol ar faterion heb fod yn gysylltiedig ag Ofcom

- 4.11 Nid yw Aelodau'n cael eu gwahardd yn llwyr rhag delio â'r cyfryngau mewn rhinwedd bersonol nad yw'n ymwneud ag Ofcom, nac wrth ddilyn diddordeb proffesiynol – er enghraifft, fel perfformwyr, arbenigwyr, beirniaid/adolygwyr (critics) neu sylwebwyr. Nid yw Aelodau'n cael eu gwahardd yn gyfan gwbl rhag ymddangos ar y teledu neu'r radio, cynhyrchu rhaglenni teledu neu radio, ac ysgrifennu blogiau/colofnau ar-lein neu mewn cylchgronau neu bapurau newydd, neu wneud cyfraniadau ar gyfryngau cymdeithasol (e.e. Twitter, Facebook, LinkedIn a Google ac ati – gyda'i gilydd, y 'gweithgareddau a ganiateir').
- 4.12 Gall Aelodau fynegi safbwyntiau personol ar yr amod eu bod yn dweud yn glir eu bod yn siarad neu'n ysgrifennu mewn rhinwedd bersonol yn unig, a'u bod yn datgan eu barn breifat eu hunain ar faterion nad ydynt yn rhan o ystod o gyfrifoldebau Ofcom, neu ar faterion sy'n ddadleuol o safbwynt diwydiannol, gwleidyddol neu gyhoeddus sy'n berthnasol iddynt.
- 4.13 Pan fydd Aelodau'n dewis datgan barn bersonol, byddwn yn dibynnu ar eu synnwyr cyffredin; rydym yn disgwyl iddynt gymryd gofal wrth wneud hynny. Er enghraifft, dylid osgoi sylwadau a allai gael effaith negyddol ar enw da Ofcom (gan nodi y dylai'r holl sylwadau neu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol gael eu hystyried yn rhai cyhoeddus), a sylwadau ar bolisïau Ofcom. Dylid hefyd osgoi datganiadau o farn ar faterion sy'n ddadleuol o safbwynt gwleidyddol neu gyhoeddus y gellid ystyried eu bod yn peryglu enw da'r Bwrdd am ddiueddrwydd ar benderfyniadau golygyddol a phenderfyniadau eraill yn y byd darlledu, neu ei wrthrychedd wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio economaidd.
- 4.14 I helpu gyda'r uchod, ac yn benodol mewn perthynas ag unrhyw erthygl arfaethedig ar-lein neu mewn papur newydd neu gylchgrawn, bydd Aelodau'n cael gwahoddiad i dynnu sylw Ysgrifennydd y Gorfforaeth a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu at erthyglau o'r fath, a dylent wneud yr un fath yng nghyswllt unrhyw gynnis i ymddangos ar raglenni teledu neu radio, neu i fod yn rhan o'u cynhyrchu. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt drafod a yw ymgysylltiad o'r fath yn dderbyniol.

Mynd i gynadleddau

- 4.15 Dylai pob gwahoddiad i fynd i ddigwyddiadau i randdeiliaid neu ddigwyddiadau'r diwydiant neu i siarad ynddynt gael ei ddangos i'r Prif Weithredwr i ddechrau neu, yn ei absenoldeb, i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, i gael cyngor. Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod gan Ofcom gynrychiolaeth briodol mewn digwyddiadau, a bod Aelodau'n cael eu briffio'n briodol cyn mynd iddynt.

Delio â rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau o neilltuaeth

- 4.16 Dylai Aelodau osgoi ymweld a/neu gymdeithasu â rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau o neilltuaeth ('purdah') – hynny yw, pan fydd penderfyniad arwyddocaol ar y gweill sy'n ymwneud â'r rhanddeiliad hwnnw, neu'n effeithio arno.

5. Materion eraill

Ymddygiad a saith egwyddor bywyd cyhoeddus

5.1 Mae'n hanfodol bod Aelodau unigol ac Ofcom yn cadw eu henw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel. Ni ddylai arsylwyr allanol fyth gael unrhyw resymau dilys dros amau a yw barn neu fuddiannau gwleidyddol neu fuddiannau preifat Aelodau yn dylanwadu ar ein cyngor neu ein penderfyniadau, neu a fyddai Aelodau'n gallu elwa ar yr wybodaeth sydd ar gael iddynt yn sgil eu gwaith.

5.2 Mae [7 egwyddor bywyd cyhoeddus](#) yn berthnasol i unrhyw un sydd â swydd gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swydd gyhoeddus – yn genedlaethol ac yn lleol – a phawb sy'n cael eu penodi i weithio:

- yn y gwasanaeth sifil
- mewn llywodraeth leol
- yn yr heddlu
- yn y gwasanaeth llys a'r gwasanaeth prawf
- mewn cyrff cyhoeddus anadrannol
- mewn gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol a gofal

Mae'r egwyddorion hefyd yn berthnasol i bawb mewn sectorau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Cawsant eu cyflwyno'n gyntaf gan yr Arglwydd Nolan yn 1995, ac maent wedi'u cynnwys yng [Nghod y Gweinidogion](#).

I gael rhagor o wybodaeth am y 7 egwyddor a gwaith y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, ewch i [wefan](#) a [safle blog](#) y Pwyllgor.

5.3 Rhaid i Aelodau sicrhau bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â [7 egwyddor bywyd cyhoeddus](#), sydd wedi'u hatodi i'r Cod hwn.

Gweithgareddau gwleidyddol

5.4 I gydymffurfio â statws Ofcom fel rheoleiddiwr annibynnol, mae'n amhriodol i unrhyw Aelod gymryd rhan weledol mewn gwleidyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys dal rôl wleidyddol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol neu ymgeisio am rôl o'r fath, cymryd rhan mewn ymgyrchu gwleidyddol i gefnogi plaid wleidyddol, a gwneud mwy na £7,500 o gyfraniad neu gyfraniadau i blaid wleidyddol mewn blwyddyn galendr. Mae gweithio'n llawn-amser i unrhyw adran mewn Llywodraeth Ganolog, neu fel swyddog yn y gwasanaeth sifil (gan gynnwys yn y gwledydd datganoledig) neu i lywodraeth leol yn annerbyniol hefyd.

5.5 Os bydd Aelodau'n ansicr, gofynnir iddynt drafod â'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

Atebolrwydd troseddol a sifil

5.6 Er bod unrhyw achos cyfreithiol a gychwynnir gan drydydd parti yn debygol o gael ei ddwyn yn erbyn Ofcom fel endid corfforaethol, mewn achosion eithriadol gellir dwyn achos (sifil

neu, mewn rhai amgylchiadau, achos troseddol) yn erbyn y Cadeirydd neu Aelodau unigol eraill. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd Aelodau'n atebol yn bersonol os byddant yn gwneud datganiad twyllodrus neu esgeulus sy'n arwain at golled i drydydd parti. Mae'n bosib y bydd Aelodau hefyd yn atebol am dorri cyfrinachedd o dan gyfraith gwlad, neu o dan ddeddfwriaeth masnachu mewnol, os byddant yn camddefnyddio gwybodaeth a gawsant yn rhinwedd eu rôl.

- 5.7 Fodd bynnag, ni fydd Aelodau sy'n gweithredu'n onest, yn rhesymol ac yn ddidwyll a heb esgeulustod yn gorfod bodloni unrhyw atebolrwydd sifil personol a fydd yn codi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau i Ofcom, neu wrth eu cyflawni'n honedig. Bydd Ofcom yn indemnio'r Aelodau yn erbyn hawliadau yn yr amgylchiadau hyn.

Treuliau

- 5.8 I hawlio treuliau teithio a threuliau eraill, mae'n rhaid i'r gwariant fod yn rhesymol ac yn angenrheidiol ar ran Ofcom yn unol â Pholisi Treuliau Ofcom. Ni ellir teithio gyda thocynnau dosbarth cyntaf yn gyffredinol, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hynny'n cael ei dderbyn. Mae'n rhaid gwneud pob hawliad treuliau ar ffurflen hawlio briodol Ofcom, a rhaid eu cyflwyno o fewn 45 diwrnod i ddyddiad y gwariant. Mae'n annhebygol y bydd treuliau a gyflwynir yn hwyrach na hynny'n cael eu talu.

Rhoddion a Lletygarwch

Rhoddion

- 5.9 Mae'n bolisi gan Ofcom i beidio â derbyn rhoddion gan unigolyn na sefydliad, ac i beidio â darparu rhoddion o'r fath. Os bydd unigolyn neu sefydliad yn mynnu rhoi rhodd i Aelod yn rhinwedd ei rôl fel Aelod, a bod y rhodd werth mwy na £10, dylid ei rhoi i elusen a ddewisir gan Ofcom. Gellir derbyn rhoddion sydd werth llai na £10.
- 5.10 Rhaid i'r holl roddion sydd werth mwy na £10 gael eu datgan a'u cofnodi ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

Lletygarwch

- 5.11 Mae'r problemau a'r manteision sy'n gysylltiedig â derbyn lletygarwch yn amrywio'n fawr ar draws y diwydiannau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom.
- 5.12 Dylai Aelodau roi sylw gofalus i'r cyngor yn y paragraff canlynol wrth benderfynu a ydynt am dderbyn cynigion lletygarwch ai peidio. Dylid tybio na ellir derbyn cynigion lletygarwch gan y sefydliadau hynny y mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Rhaid i'r Aelod ysgwyddo'r baich o egluro pam y dylid derbyn cynnig o letygarwch.
- 5.13 Dylai Aelodau ystyried y canllawiau cyffredinol a ganlyn, a all helpu i asesu rhinweddau cymharol derbyn gwahoddiad:

- a) **Categori 1:** Mae'n bosib y gellir derbyn lletygarwch mewn digwyddiadau sy'n cynnig cyfleoedd i rwydweithio â rhanddeiliaid Ofcom, ac felly a allai hyrwyddo neu gyfrannu at waith Ofcom. Er enghraifft, mynd i ginio gwobrau diwydiant.
- b) **Categori 2:** Mae lletygarwch sy'n gysylltiedig â gwaith a gynigir gan un rhanddeiliad neu drwyddedai yn dderbyniol, pan fydd yn amlwg bod hynny o werth i waith Ofcom ac i'r diwydiant dan sylw yn ehangach. Er enghraifft, cinio gwaith.
- c) **Categori 3:** Dylid gwrthod yn gwrtais unrhyw gynnig lletygarwch sydd o fudd personol i'r sawl a fydd yn derbyn y cynnig os bydd yn anodd cyfiawnhau'r budd i Ofcom, neu os oes risg o duedd ymddangosiadol neu sylw niweidiol. Er enghraifft, gwahoddiadau gan rhanddeiliaid Ofcom i ddigwyddiadau diwylliannol neu chwaraeon, fel cael cynnig tocynnau i ddigwyddiad Proms y BBC, i rownd derfynol Cwpan yr FA, neu i gyngerdd yn yr O2 Arena.

Cofrestr rhoddion a lletygarwch

- 5.14 Bydd Ofcom yn cadw cofrestr o roddion a lletygarwch, lle dylai pob cynnig o letygarwch perthnasol y mae Aelodau Bwrdd wedi'u derbyn, neu wedi'u darparu, gael eu cofnodi at ddibenion atebolrwydd a chysondeb. Bydd y gofrestr hon ar gael i'r cyhoedd.
- 5.15 Mae'r gofrestr hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Ofcom. Mae'n rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth am yr holl roddion a lletygarwch y maent yn eu derbyn neu'n eu darparu.
- 5.16 Gall Ysgrifennydd y Gorfforaeth roi cyngor i Aelodau ynghylch rhoddion a lletygarwch perthnasol. Dylid tynnu sylw Ysgrifennydd y Gorfforaeth at unrhyw rai y bydd Aelodau yn eu derbyn, a bydd yr Ysgrifennydd yn diweddarau'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn rheolaidd. Nid sensora yw bwriad y broses hon, ond sicrhau yn gyntaf bod gan Ofcom lefel briodol o gynrychiolaeth mewn digwyddiadau neu swyddogaethau, ac yn ail, sicrhau na ellir awgrymu unrhyw duedd wirioneddol nac ymddangosiadol o safbwynt unrhyw rhanddeiliad penodol.

Diogelu data

- 5.17 At ddibenion cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae Aelodau'n rhoi caniatâd i Ofcom gadw, prosesu a chael mynediad at eu data personol at unrhyw ddibenion.

Cyfyngiadau gadael

- 5.18 Ar ôl i'w swydd ddod i ben, rhaid i Aelodau ddychwelyd yr holl eiddo (gan gynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu i hynny: dogfennau a meddalwedd, cardiau credyd, offer cyfrifiadurol, allweddi a chardiau diogelwch) sy'n eiddo i Ofcom.

Atodiad

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

1. Anhunanoldeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus ond gweithredu er budd y cyhoedd.

2. Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt wrth iddynt wneud eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael manteision ariannol neu unrhyw fanteision perthnasol eraill iddynt eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthynas.

3. Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu ragfarn.

4. Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau ac am yr hyn y maent yn ei wneud a rhaid iddynt ganiatáu i eraill graffu arnynt yn y modd sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau hynny.

5. Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

6. Gonestrwydd

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn eirwir.

7. Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ymddwyn yn unol â'r egwyddorion hyn. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn yn gadarnhaol a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pryd bynnag y'i gwelir.